

Crynodeb ac argymhellion

1. Ym mis Gorffennaf 2004, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant y Cyfryngau a Chwaraeon i Banel Defnyddwyr Ofcom ystyried pa fesurau allai fod yn angenrheidiol i ddiogelu buddiannau'r defnyddwyr "mwyaf bregus" yn ystod y newid i deledu digidol.
2. Mae'r Panel Defnyddwyr yn dechrau o safle o gefnogi'r egwyddor o newid i deledu digidol. Mae o'r farn bod buddion sylweddol o bosibl i'r bobl yn gyffredin yn y DU o newid i deledu digidol. Ond bydd gwerth llawn y buddion hyn ond yn cael eu gwreiddu os caiff y llwybr i deledu digidol ei reoli yn y fath fodd ag i leihau'r risg o niwed i bobl fregus.
3. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, rydym wedi canolbwyntio ar ddwy egwyddor allweddol. Yn gyntaf, ein cred mai'r hyn sydd ei angen ar bobl yw cymorth ymarferol, ar eu lefel nhw. Yn ail, bod trosi un set deledu i ddigidol mewn cartref yn sicrhau mynediad parhaus i deledu. Mae ein hamcangyfrifon o gostau felly'n seiliedig ar drosi un set.
4. Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio dyblygu'r ymchwil ac archwilio cynhwysfawr a gwblhawyd eisoes yn y maes hwn. Yn lle hynny, mae'n canolbwyntio ar yr agweddau ymarferol ar droi i deledu digidol – gan edrych ar y broses o fabwysiadu teledu digidol gam wrth gam, a phennu'r rhwystrau ac i bwy ar bob cam.
5. Ein canfyddiad allweddol o'r dadansoddiad hwn o'r broses mabwysiadu digidol yw mai'r rheiny sy'n debygol o fod yn fwyaf bregus yw pobl sydd angen help i roi'r newidiadau ymarferol ar waith y mae mabwysiadu teledu digidol yn gofyn amdanynt, ac nad oes ganddynt unrhyw un i droi atynt am gefnogaeth. Hynny yw, mae'r newid i deledu digidol yn golygu'r heriau mwyaf i'r rheiny sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol - pobl a fydd yn ei chael yn anodd dod i wybod am y newid i deledu digidol, deall yr hyn y mae'n ei olygu ac felly na all gymryd camau effeithiol i ddelio â hynny. Bydd pobl heb rwydwaith cefnogaeth digonol o gyfeillion, teulu, cymdogion a gofalwyr felly'n arbennig o fregus.
6. Rydym yn cydnabod nad yw'r cysyniad hwn o ynysu cymdeithasol yn cyd-fynd yn hawdd â chysyniadau mwy traddodiadol o fregusrwydd – rhai y gellir eu hamgyffred drwy gyfeirio at y system fudd-daliadau er enghraifft. Bydd yn gysylltiedig ag oedran, amryw fathau o anabledd a llythrennedd gwael yn Saesneg. Rydym yn credu y bydd felly angen strwythur cyflwyno newydd ac arloesol i fynd i'r afael â hyn yn effeithiol.
7. Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol:
 - a. Dylai SwitchCo, y corff sydd â'r cyfrifoldeb dros roi'r newid ar waith, ddatblygu proses – gan weithio'n agos â'r sector gwirfoddol a llywodraeth leol – i nodi pobl sydd angen cymorth yn ystod y newid, a darparu cynllun sy'n cynnig cefnogaeth ymarferol. Rydym yn amcangyfrif y gallai cynllun cenedlaethol fel hyn gostio tua £110m.
 - b. Dylid cynnig cymorth ariannol i bobl sy'n gymwys ar hyn o bryd am eithriad neu ostyngiad o ran y drwydded deledu (pobl dros 75 oed neu sydd wedi'u cofrestru'n ddall) er mwyn talu costau unigol prynu offer ac unrhyw waith

gwella eerial angenrheidiol sydd ei angen i newid i deledu digidol. Rydym yn amcangyfrif y gallai costau cymorth o'r fath fod rhwng £134m a £270m.

- c. Gallai cyfanswm cost yr hyn rydym yn ei argymhell felly fod rhwng £250m a £400m yn fras.
- d. Rhaid rhoi sylw sylweddol a diymdroi i ofynion penodol pobl ag anabledd, yn enwedig y rheiny â nam ar eu golwg neu eu clyw, er mwyn sicrhau y bydd offer addas am gost resymol ar gael yn rhwydd.
- e. Dylai teledu daearol digidol (DTT) gael ei gyflwyno ar y raddfa ehangaf bosibl, er mwyn sicrhau bod gan y nifer fwyaf o gartrefi ledled y DU y dewis o lwyfannau teledu digidol a mynediad i ddewis cost isel ar gyfer teledu digidol.
- f. Dylid annog gweithgynhyrchwyr ac adwerthwyr i sicrhau y caiff yr holl offer ar werth ei labelu'n glir o ran ei alluoedd digidol, er mwyn atal pobl rhag gwneud camgymeriadau drud wrth brynu rhwng nawr a'r adeg newid.
- g. Dylai gweithgynhyrchwyr barhau i ddatblygu bocsys pen teledu sy'n hawdd eu defnyddio a theclynnau rheoli o bell ar gyfer y bobl hynny nad ydynt eisiau nodweddion cymhleth.
- h. Ond yn fwyaf pwysig, rydyn yn annog y rheiny sy'n arwain y broses o newid i deledu digidol i roi ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar waith cyn gynted â phosibl ar gyfer y newid i deledu digidol. Bydd hyn yn hollbwysig i sicrhau bod yn nifer fwyaf bosibl o bobl yn deall "Pam?", "Sut?" a "Faint?" sy'n gysylltiedig â'r newid i deledu digidol.